

Cyngor Sir y Fflint  
Addysg ac Ieuenctid

# Templed Polisi Presenoldeb Ysgolion

Diweddarwyd  
Mawrth  
2026

|                                                                   |         |
|-------------------------------------------------------------------|---------|
| Cyflwyniad                                                        | 3       |
| Nodau                                                             | 4       |
| Egwyddorion Craidd                                                | 5       |
| Y Fframwaith Cyfreithiol                                          | 5       |
| Rolau a Chyfrifoldebau Ysgolion                                   | 6       |
| Rolau a Chyfrifoldebau Rhieni, Gofalwyr a Dysgwyr                 | 8       |
| Rolau a Chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Lles Addysg                   | 8       |
| Monitro Presenoldeb                                               | 10      |
| Cynlluniau Gwellu Presenoldeb                                     | 11      |
| Rhybuddion Cosb Benodedig                                         | 11      |
| Gorchmynion Goruchwyllo Addysg                                    | 12      |
| Gorchmynion Mynychu'r Ysgol                                       | 12      |
| Erlyn am Absenoldeb                                               | 13      |
| Plant sy'n Colli Addysg                                           | 13      |
| Strategaethau yn yr Ysgol i Hybu Presenoldeb                      | 13      |
| Addysg hyblyg, Amserlenni Byrrach ac Addysg Ddewisol yn y Cartref | 14      |
| Ysgolion Bro                                                      | 14      |
| Y Tîm o Amgylch yr Ysgol                                          | 14      |
| Dysgu Ar-lein                                                     | 15      |
| Gwyliau yn Ystod Tymor yr Ysgol                                   | 15      |
| <i>Atodiad 1 - Codau Presenoldeb</i>                              | 16-18   |
| <i>Atodiad 2 – Mapiau Proses</i>                                  | 18 – 22 |
| <i>Atodiad 3 - Llythyrau Presenoldeb Enghreifftiol</i>            | 23 – 26 |
| Hysbysiad Preifatrwydd - Tudalen Olaf                             | 27      |

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint (CSyFflint) wedi ymrwymo i sicrhau fod gan bob plentyn ac unigolyn ifanc fynediad i addysg addas llawn amser a'u bod yn teimlo synnwyr cryf o berthyn o fewn cymuned eu hysgol.

Mae'n hanfodol fod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gall peidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd gynyddu'r perygl o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau a gall hefyd ei gwneud yn fwy tebygol iddynt gael eu tynnu i mewn i ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol. Mae absenoldeb parhaus yn aml yn symptom o angen nad yw'n cael ei ddiwallu a dylid mynd i'r afael â hyn drwy ganfod y broblem yn gynnar, gweithio mewn partneriaeth ac ymyrraeth gymesur.

Bydd Gwasanaethau Cynhwysiant Cyngor Sir y Fflint ac asiantaethau partner yn ceisio gweithio gyda rhieni a disgyblion i sicrhau fod pob disgybl yn cael cefnogaeth briodol i'w galluogi i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r polisi yn nodi ymagwedd strategol a gweithredol Sir y Fflint tuag at bresenoldeb yn yr ysgol ac yn adlewyrchu disgwyliadau'r awdurdod lleol o ran mynychu'r ysgol.

Caiff y polisi ei lywio gan:

Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi: Canllaw ar wella ymgysylltiad a phresenoldeb y dysgwr (Llywodraeth Cymru 2023)

Canllaw Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb yn yr ysgol, cofrestru a chodau

Canllaw Llywodraeth Cymru ar Blant sy'n Colli Addysg

Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan

Deddf Addysg 1996

## Rheoliadau Addysg (Rhybuddion Cosb) (Cymru) 2013

Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Cyhoeddi Rhybuddion Cosb Benodedig

### 1. Nodau

Mae'r polisi yn anelu i sicrhau fod presenoldeb a phrydlondeb yn parhau yn flaenoriaeth ar gyfer dysgwyr, rhieni/gofalwyr, ysgolion, cyrff llywodraethu, yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi ysgolion i:

- Hyrwyddo amgylchedd diogel, cynhwysol a chroesawgar lle mae'r holl ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi
- Codi cyrhaeddiad a lles drwy lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb
- Gwreiddio diwylliant ysgol gyfan sy'n hyrwyddo perthyn, ymgysylltu a chyfranogiad.
- Nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i bresenoldeb ar y cyfle cynharaf posibl
- Sicrhau fod data presenoldeb yn gywir, amserol ac yn cael ei fonitro'n effeithiol
- Diogelu dysgwyr drwy weithdrefnau Plant sy'n Colli Addysg cadarn
- Gweithredu ymyriadau statudol yn deg, cymesur ac yn gyson pan fo angen

## 2. Egwyddorion Craidd

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i ymagwedd Sir y Fflint tuag at bresenoldeb:

- Perthyn yn gyntaf – mae dysgwyr yn mynychu'n fwy cyson pan maent yn teimlo'n ddiogel, teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn cael eu cynnwys
- Ymyrraeth gynnar – dylid mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â phresenoldeb cyn i batrymau sefydlu
- Cyfrifoldeb a rennir – mae gwella presenoldeb yn gofyn am gydweithio rhwng ysgolion, teuluoedd, yr awdurdod lleol a phartneriaid
- Ymateb graddedig – blaenoriaethir cefnogaeth, gyda chymau statudol yn cael eu defnyddio dim ond pan fo angen
- Canolbwyntio ar ddiogelu – mae absenoldeb a cholli addysg yn bryderon diogelu

## 3. Y Fframwaith Cyfreithiol

### 3.1 Oedran Ysgol Statudol

I ddibenion y polisi hwn, caiff oedran ysgol gorfodol ei ddiffinio yn unol ag Adran 8 Deddf Addysg 1996. Mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r tymor ysgol yn dilyn eu pumed pen-blwydd ac yn rhoi'r gorau i fod o oedran ysgol gorfodol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol lle maent yn cyrraedd 16 oed.

### 3.2 Cyfrifoldeb Rhiant

O dan Adran 7 Deddf Addysg 1996, mae gan rieni ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i'w hoed, gallu, doniau ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol un ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.

Mae Adran 444 y Ddeddf yn datgan fod rhiant yn cyflawni trosedd os yw disgybl cofrestredig yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac os yw'r absenoldeb heb ei awdurdodi.

3.3 Mae'n rhaid i bob plentyn gael addysg. Mae Deddf Addysg 1996 yn nodi:

- Mae'n rhaid i rieni (neu ofalwyr) sicrhau fod gan eu plant addysg 'effeithlon' ac 'addas' sy'n bodloni eu hanghenion.
- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau fod yr holl blant yn eu hardal yn derbyn addysg addas.

## 4. Rolau a Chyfrifoldebau Ysgolion

Dylai'r ysgol baratoi adroddiadau rheolaidd i'r Corff Llywodraethu a'r Uwch Dîm Rheoli ac ar gyfer asiantaethau monitro priodol i sicrhau fod lefelau presenoldeb yn glir a bod y codau presenoldeb yn gywir. Dylai rhieni hefyd gael eu hysbysu drwy sianeli cyfathrebu arferol yr ysgol fel y'u nodir yn y polisi hwn.

### 4.1 Penaethiaid

Mae penaethiaid yn gyfrifol am:

- Weithredu trefniadau presenoldeb yn gyffredinol o fewn yr ysgol
- Sicrhau fod cofrestrau wedi eu llenwi'n gywir ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru
- Penderfynu p'un ai yw absenoldebau wedi eu hawdurdodi neu heb eu hawdurdodi
- Arwain ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu gyda theuluoedd
- Gweithio'n agos gyda llywodraethwyr, y Gwasanaethau Lles Addysg ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant
- Atgyfeirio pryderon yn ymwneud â Phlant sy'n Colli Addysg yn unol â gweithdrefnau Plant sy'n Colli Addysg Cyngor Sir y Fflint.
- Gofyn am Rybuddion Cosb Benodedig lle bo'n briodol gan sicrhau y bodlonir trothwyon tystiolaeth

## 4.2 Cyrff Llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am:

- Gymeradwyo ac adolygu polisi presenoldeb yr ysgol yn flynyddol
- Monitro data presenoldeb a thueddiadau
- Penodi llywodraethwr arweiniol i ymdrin â phresenoldeb
- Dal arweinwyr ysgolion i gyfrif am ganlyniadau presenoldeb

## 4.3 Staff yr Ysgol

Mae gan holl staff yr ysgol rôl mewn hybu presenoldeb. Mae cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- Hybu presenoldeb fel rhan o ddiwylliant dyddiol yr ysgol
- Llenwi cofrestrau yn gywir ddwywaith y dydd
- Sicrhau fod gweithdrefnau presenoldeb yn cael eu gweithredu'n gyson
- Monitro data presenoldeb a phatrymau
- Orlhain absenoldebau heb eglurhad ar unwaith
- Sicrhau bod cyswllt o'r diwrnod cyntaf gyda rhieni/gofalwyr.
- Rheoli cofrestrau, achosion o gyrraedd yn hwyr a chofnodion presenoldeb
- Cydgysylltu gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg am gyngor a chefnogaeth gydag unrhyw bryderon presenoldeb

## 4.5. Cadw Cofrestrau Ysgolion

Mae cofrestr presenoldeb yr ysgol yn ddogfen gyfreithiol. O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae gofyn i ysgolion gadw cofnod cywir o bresenoldeb.

- Marciwch y cofrestrau ddwywaith yn ddyddiol (yn y bore a'r prynhawn) i gefnogi diogelu
- Cofnodwch bresenoldeb yn gywir ar SIMS, gan gynnwys y rheswm dros absenoldeb gyda sylwadau a llythrennau cyntaf enw'r aelod o staff
- Sicrhewch fod cofrestrau a Thystysgrifau Cofrestru yn gywir ac wedi eu cwblhau'n ddyddiol, gan y gallant gael eu defnyddio fel tystiolaeth gyfreithiol gan y Gwasanaeth Lles Addysg

## **5. Rolau a Chyfrifoldebau Rhieni, Gofalwyr a Dysgwyr**

### **5.1 Mae disgwyl i rieni a gofalwyr:**

- Sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon
- Hysbysu'r ysgol ar unwaith ynglŷn ag absenoldeb a rhoi rhesymau
- Ymgysylltu â'r ysgol a gwasanaethau cefnogi i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â phresenoldeb
- Sicrhau fod y manylion cyswllt yn gyfredol

### **5.2 Dysgwyr**

Mae disgwyl bod dysgwyr yn:

- Mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser
- Ymgysylltu'n gadarnhaol gyda dysgu a chefnogaeth
- Cyfathrebu pryderon a allai effeithio presenoldeb

## **6. Rolau a Chyfrifoldebau Gwasanaeth Lles Addysg yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn wasanaeth statudol sy'n cefnogi ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth



Lles Addysg yn cyfarfod neu'n cydgysylltu ag uwch aelod o staff i drafod achosion a mynegi unrhyw bryderon.

Mae gan **ysgolion uwchradd** Swyddog Lles Addysg neu Weithiwr Cymdeithasol Addysg dynodedig sy'n:

- Cydgysylltu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd adolygu presenoldeb a gynhelir yn yr ysgol.
- Derbyn ceisiadau uniongyrchol am gefnogaeth drwy gyfarfodydd adolygu yn yr ysgol, e-bost neu dros y ffôn.

Bydd **ysgolion cynradd** yn derbyn cefnogaeth gyda phresenoldeb gan Swyddog Cefnogi Addysg i ddechrau a fydd:

- Yn cynnal cyfarfodydd presenoldeb bob hanner tymor
- Yn cwblhau ymweliadau cychwynnol ac yn rhoi cefnogaeth gydag ymyriadau cynnar.
- Yn trosglwyddo achosion i Swyddog Lles Addysg neu Weithiwr Cymdeithasol Addysg pan fo angen cefnogaeth bellach neu gamau cyfreithiol.

Ysgolion sydd â'r cyfrifoldeb dros gofrestrau presenoldeb; mae cofnodi marciau yn ôl disgresiwn y Pennaeth yn unol â [Chanllawiau Codau LIC](#) *Atodiad 1 - Codau Presenoldeb*.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn defnyddio data SIMS i adnabod patrymau a phryderon posibl yn rhagweithiol. Mae proffiliau presenoldeb rheolaidd hefyd yn cael eu cynnal gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu - Ymgysylltu i adnabod patrymau a dysgwyr unigol a allai fod angen cefnogaeth.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu o dan Ddatganiad Amlinelliad Gwasanaeth a Phroffil Un Dudalen (Polisi Gwasanaethau Ymgysylltu Addysg Cyngor Sir y Fflint, Rhagfyr 2024).

O dan Ddeddf Addysg 1996 mae gan rieni ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Pan fo rhieni'n methu â bodloni'r ddyletswydd hon, gall camau statudol gael eu cymryd:

- **Rhybuddion Cosb Benodedig**

- **Gorchmynion Goruchwylio Addysg**
- **Gorchmynion Mynychu'r Ysgol**
- **Erlyn am Absenoldeb**

Dim ond fel y dewis olaf y defnyddir camau statudol. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio i gefnogi rhieni, ysgolion a disgyblion yn gyntaf.

Caiff proses yr ymyrraeth a'r gefnogaeth, gan gynnwys Rhybudd Cosb Benodedig a gweithdrefnau'r llysoedd, ei ddarparu yn y mapiau proses sydd ynghlwm er eglurder.

## **7. Monitro Presenoldeb**

Caiff presenoldeb ei fonitro'n barhaus yn yr ysgol ac ar lefel awdurdod lleol gan y Gwasanaeth Lles Addysg. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio absenoldeb parhaus fel presenoldeb o dan 90%. Dylai'r ysgol broffilio presenoldeb myfyrwyr gyda phresenoldeb sy'n is na 90% yn rheolaidd.

Mae Sir y Fflint yn gweithredu ymateb graddedig i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus.

- Llythyr Presenoldeb 1 – Mae'n rhoi gwybod i rieni/gofalwyr fod presenoldeb <90% a'i fod yn cael ei fonitro
- Llythyr Presenoldeb 2 – Nid yw presenoldeb wedi gwella, ceir llythyr sy'n rhoi gwybod i rieni/gofalwyr fod angen tystiolaeth feddygol nawr i awdurdodi absenoldebau. Ymweliadau â'r cartref i'w cwblhau gan aelod penodol o'r Gwasanaeth Lles Addysg
- Llythyr Presenoldeb 3 - cyfarfod i'w drefnu gyda'r rhiant/gofalwr a Swyddog Lles Addysg/Gweithiwr Cymdeithasol Addysg i fod yn bresennol. Gall Cynllun Gwella Presenoldeb gael ei drafod a'i weithredu ar y cam hwn.
- Llythyr Presenoldeb 4 – Dim gwelliannau a llythyr wedi ei gyhoeddi i rieni/gofalwyr yn datgan y gwneir cais am Rybudd Cosb Benodedig



Pryd bynnag fo'n bosibl dylai ysgolion anfon yr holl lythyrau presenoldeb allan i rieni/gofalwyr drwy e-bost. Arfer da fyddai i ychwanegu derbynneb darllen gan y bydd hyn yn darparu tystiolaeth fod yr e-bost wedi ei dderbyn a'i ddarllen. Llythyrau presenoldeb enghreifftiol *Atodiad 3* wedi eu cynnwys yn y polisi.

## **8. Cynlluniau Gwella Presenoldeb**

Dylai rhieni a gofalwyr gael eu gwahodd i'r ysgol fel rhan o'r ymateb graddedig i bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plentyn (Llythyr Presenoldeb 3). Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu cyfle i drafod pryderon yn ymwneud â phresenoldeb ac i ddatblygu Cynllun Gwella Presenoldeb a all gael ei gwblhau a'i lofnodi yn ystod y cyfarfod.

Os na all rhiant neu ofalwr fynychu, dylai llythyr arall gael ei gyhoeddi yn cynnig cyfle arall i gyfranogi. Os methir â dod i gyfarfod heb roi gwybod am hynny, mae'n bosibl y bydd unrhyw absenoldebau yn parhau heb eu hawdurdodi ar ddisgresiwn y Pennaeth.

## **9. Rhybuddion Cosb Benodedig**

Gall Rhybuddion Cosb Benodedig gael eu hystyried o dan Reoliadau Addysg (Rhybuddion Cosb) (Cymru) 2013 lle bydd absenoldeb heb ei awdurdodi yn parhau er gwaethaf ymyrraeth gefnogol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu Rhybuddion Cosb Benodedig yn unol â Chod Ymddygiad CSyFflint sy'n nodi'r isod:

- Y trothwyon ar gyfer absenoldeb heb awdurdod neu fod yn hwyr
- Y gofynion o ran tystiolaeth ac ymyriadau blaenorol
- Prosesau ar gyfer cyhoeddi, monitro ac uwchgyfeirio

Y Pennaeth fydd i benderfynu a ddylid gwneud cais am Rybudd Cosb Benodedig. Gall peidio â thalu arwain at erlyn o dan Adran 444 (1) Deddf Addysg 1996 am fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Gallai hyn arwain at ymddangosiad yn y llys ynadon ac at ddirwy o hyd at £1,000 am bob plentyn.

## **10. Gorchmynion Goruchwyllo Addysg**

Darperir ar gyfer y Gorchmynion Goruchwyllo Addysg o dan Ddeddf Plant 1989 ac fe allant gael eu hystyried pan nad yw plentyn o oed ysgol gorfodol yn cael ei addysgu'n briodol a lle mae angen goruchwyliaeth gan yr awdurdod lleol i sicrhau fod anghenion addysgol y plentyn yn cael eu bodloni.

Mae Gorchmynion Goruchwyllo Addysg yn rhoi'r plentyn o dan oruchwyliaeth yr awdurdod lleol ac yn galluogi Swyddog Lles Addysg i gynghori, cynorthwyo a, lle bo'n briodol, rhoi cyfarwyddiadau i'r plentyn a'i rieni mewn perthynas ag addysg. Bwriad y Gorchmynion Goruchwyllo Addysg yw bod yn gefnogol yn hytrach na chosbi ac fe allant gael eu defnyddio lle mae absenoldeb parhaus er gwaethaf ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth, ond lle na ystyrir mai erlyn yw'r cam gweithredu mwyaf priodol.

## **11. Gorchmynion Mynychu'r Ysgol**

Caiff Gorchmynion Mynychu'r Ysgol eu cyhoeddi o dan Adrannau 437–443 Deddf Addysg 1996. Fe all Gorchmynion Mynychu'r Ysgol gael ei ystyried pan fo rhiant wedi methu â dangos fod plentyn o oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas a phan fo'r awdurdod lleol yn credu y dylai'r plentyn fynychu ysgol benodol.

Caiff Gorchmynion Mynychu'r Ysgol eu defnyddio fel arfer pan nad yw plentyn wedi cofrestru mewn unrhyw ysgol a phan nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon fod addysg addas yn cael ei darparu, gan gynnwys amgylchiadau lle ystyrir fod trefniadau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn anaddas.

Gall methu â chydymffurfio â Gorchmynion Mynychu'r Ysgol arwain at gamau cyfreithiol.

## **12. Erlyn am Absenoldeb**

Os oes yna dystiolaeth fod rhieni neu ofalwyr yn gwybod nad oedd eu plentyn yn mynychu'r ysgol a'u bod wedi methu â gweithredu fe allant gael eu herlyn o dan Adran 444(1A) Deddf Addysg 1996.



Gydag euogfarn gall rhieni neu ofalwyr wynebu hyd at dri mis yn y carchar a/neu ddirwy o hyd at £2,500.

### **13. Plant sy'n Colli Addysg**

Mae Plant sy'n Colli Addysg yn cynrychioli risg sylweddol o ran diogelu. Mae'n rhaid i ysgolion:

- Hysbysu'r awdurdod lleol pan fo lleoliad disgybl neu ei ddarpariaeth addysgol yn aneglur.
- Dilyn canllawiau Plant sy'n Colli Addysg Cyngor Sir y Fflint cyn tynnu disgybl o'r gofrestr
- Cynnal cofrestrau cywir a throsglwyddo cofnodion yn brydlon
- Ni ddylai unrhyw ddisgybl gael ei dynnu oddi ar y gofrestr oni bai fod cyrchfan wedi ei sefydlu neu fod y broses Plant sy'n Colli Addysg wedi ei chwblhau

### **14. Strategaethau yn yr Ysgol i Hybu Presenoldeb**

Caiff ysgolion eu hannog i fabwysiadu strategaethau cynhwysol wedi eu llywio gan dystiolaeth gan gynnwys:

- Amgylcheddau ysgol cadarnhaol a pherthnasoedd cryf
- Cynllunio pontio effeithiol
- Gwasanaethau presenoldeb a gwobrau
- Ymgysylltu gyda theuluoedd drwy gyfathrebu rheolaidd
- Clybiau brecwast a darpariaeth sy'n canolbwyntio ar les

## **15. Addysg Hyblyg, Amserlenni Byrrach ac Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai addysg hyblyg ac amserlenni byrrach gael eu defnyddio ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyfyngedig o ran amser, wedi eu cynllunio ac yn destun adolygiad rheolaidd. Ni ddylent gael eu defnyddio fel ymateb hirdymor i anawsterau presenoldeb nac fel cyfrwng o reoli ymddygiad.

Mae'n rhaid i unrhyw gytundeb sy'n arwain at ddisgybl yn mynychu'r ysgol am gyfnod byrrach gael ei gytuno'n ffurfiol, ei ddogfennu'n glir a dylai gynnwys cynllun ar gyfer ailintegreiddio i addysg lawn amser. Rhieni sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau addysg addas yn ystod unrhyw gyfnod na dreulir yn yr ysgol.

Mae Addysg Ddewisol yn y Cartref yn ddewis cyfreithlon o dan Adran 7 Deddf Addysg 1996. Pan fo rhieni'n dewis addysgu eu plentyn gartref bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu yn unol ag Addysg Ddewisol yn y Cartref Llywodraeth Cymru.

## **16. Ysgolion Bro**

Mae Ysgolion Bro yn chwarae rhan weithredol yn cefnogi presenoldeb yn yr ysgol drwy'r gwasanaeth a ddarperir yn y Strategaeth Ysgolion Bro a gyhoeddwyd a'r llyfryn darparu gwasanaeth.

## **17. Y Tîm o Amgylch yr Ysgol**

Mae'r Tîm o Amgylch yr Ysgol yn brosiect newydd ar gyfer 25/26 ac mae wedi ei leoli ar hyn o bryd yng Nghymuned y Fflint.

Mae Canllawiau'r Tîm o Amgylch yr Ysgol a llyfryn ar gael i ddarparu rhagor o fanylion yn ymwneud â'r ymagwedd hon a'i rôl yw cefnogi gyda materion yn ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol.

## 18. Dysgu Ar-lein

Mae gwybodaeth leol yn awgrymu bod ysgolion yn defnyddio dulliau dysgu ar-lein i fynd i'r afael ag ystod o broblemau'n ymwneud ag addysg ac ymgysylltu ar brydiau. Mae'r robot AV 1 hefyd yn gyfrwng arall lle gall ysgolion gefnogi disgyblion gyda gorbryder neu sy'n Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio i wella'r ystod o ddulliau lle gellir defnyddio cyfleoedd dysgu ar-lein.

## 19. Gwyliau yn Ystod Tymor yr Ysgol

Nid oes gan rieni a gofalwyr hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol yn ystod y tymor ysgol er mwyn mynd ar wyliau. O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae gan Benaethiaid hawl i awdurdodi hyd at ddeg diwrnod ysgol o wyliau yn ystod y tymor. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid awdurdodi cais am wyliau hwy na deg diwrnod ysgol.

Rhaid cyflwyno pob cais am wyliau yn ystod tymor yr ysgol gan ddefnyddio ffurflen gais am wyliau'r ysgol wedi'i llenwi gan y rhieni/gwarcheidwaid. Bydd y Pennaeth yn penderfynu p'un ai a fydd y cais yn cael ei awdurdodi, gan ystyried y ffactorau canlynol:

- Yr adeg o'r flwyddyn.
- Hyd yr absenoldeb.
- Canran gyffredinol presenoldeb.
- Yr effaith ar addysg y plentyn.

|               |           |                                                                                                        |
|---------------|-----------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Gwyrdd</b> | 100%      | Heb golli unrhyw wersi.                                                                                |
|               | 99%       | Colli tua 10 gwers.                                                                                    |
|               | 98 %      | Colli tua 20 gwers.                                                                                    |
|               | 97%       | Colli tua 30 gwers.                                                                                    |
| <b>Oren</b>   | 96%       | Colli tua 8 diwrnod o ysgol.<br>Bydd yn anodd dal i fyny ar yr addysg sydd wedi ei golli.              |
|               | O         | tua 40 o wersi                                                                                         |
|               | 95%       | Colli tua pythefnos o ysgol.                                                                           |
| <b>Coch</b>   | 93%       | Colli tua 14 diwrnod o ysgol.<br>Mae hyn bron i dair wythnos o addysg wedi'i golli.                    |
|               | 92% ac is | Colli dros dair wythnos o addysg. Diffyg addysg difrifol a allai gael effaith niweidiol ar gyflawniad. |

## Atodiad 1 Codau Presenoldeb LIC


| Cod | Ystyr                                                         | Ystyr ystadegol                      |
|-----|---------------------------------------------------------------|--------------------------------------|
| / \ | Yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru                      | Yn bresennol                         |
| L   | Hwyr (ond yn cyrraedd cyn i'r gofrestr gau)                   | Yn bresennol                         |
| B   | Addysgir oddi ar y safle                                      | Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd |
| D   | Cofrestriad deuol                                             | Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd |
| P   | Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd                         | Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd |
| V   | Taith neu ymweliad addysgol                                   | Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd |
| J   | Cyfweliad                                                     | Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd |
| W   | Profiad gwaith (nid dysgu yn seiliedig ar waith)              | Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd |
| C   | Amgylchiadau awdurdodedig eraill (na chwmpesir gan god arall) | Absenoldeb awdurdodedig              |
| F   | Gwyliau teuluol estynedig a gytunwyd                          | Absenoldeb awdurdodedig              |
| H   | Gwyliau teuluol a gytunwyd                                    | Absenoldeb awdurdodedig              |
| I   | Salwch                                                        | Absenoldeb awdurdodedig              |
| M   | Apwyntiad meddygol / deintyddol                               | Absenoldeb awdurdodedig              |
| S   | Absenoldeb astudio                                            | Absenoldeb awdurdodedig              |
| E   | Gwaharddiad                                                   | Absenoldeb awdurdodedig              |

|          |                                                                                        |                                                 |
|----------|----------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|
| <b>R</b> | <b>Diwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig</b>                         | <b>Absenoldeb awdurdodedig</b>                  |
| <b>T</b> | <b>Absenoldeb Teithiwr</b>                                                             | <b>Absenoldeb awdurdodedig</b>                  |
| <b>N</b> | <b>Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb</b>                                  | <b>Absenoldeb anawdurdodedig</b>                |
| <b>O</b> | <b>Absenoldeb anawdurdodedig arall (na chwmpesir gan godau na disgrifiadau eraill)</b> | <b>Absenoldeb anawdurdodedig</b>                |
| <b>G</b> | <b>Gwyliau teuluol (na chytunwyd arnynt)</b>                                           | <b>Absenoldeb anawdurdodedig</b>                |
| <b>U</b> | <b>Hwyr ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben</b>                                      | <b>Absenoldeb anawdurdodedig</b>                |
| <b>X</b> | <b>Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol</b> | <b>Nid yw'n ofynnol iddynt fod yn bresennol</b> |
| <b>Y</b> | <b>Cau ysgol yn rhannol a gorfod cau ysgol</b>                                         | <b>Nid yw'n ofynnol iddynt fod yn bresennol</b> |
| <b>Z</b> | <b>Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto</b>                                              | <b>Nid yw'n ofynnol iddynt fod yn bresennol</b> |
| <b>#</b> | <b>Yr ysgol ar gau i bob disgybl</b>                                                   | <b>Nid yw'n ofynnol iddynt fod yn bresennol</b> |


## ***Atodiad 2 – Mapiau Proses***

### **Mapiau Proses**

- 1 Map Proses 1 – Map Proses Monitro Presenoldeb 2025.
- 2 Map Proses 2 – Map Proses Rhybudd Cosb Benodedig £60.
- 3 Map Proses 3 – Map Proses Rhybudd Cosb Benodedig £120.
- 4 Map Proses 4 – Proses Datganiad Llys Rhybudd Cosb Benodedig Heb ei Dalu




## Map Proses Rhybudd Cosb Benodedig £60



## Map Proses Rhybudd Cosb Benodedig £120



## Rhybudd Cosb Benodedig (RhCB) heb ei dalu - Proses Datganiad Lllys



# Llythrau Presenoldeb Enghreifftiol

## Llythyr 1 – Monitro

«dyddiad argraffu»

«cyfarchiad»

«bloc cyfeiriad»

Annwyl «cyfarchiad»

### Ynglŷn â: «enw llawn» - «blwyddyn gofrestru»

Disgwyliad ysgolion yw na ddylai presenoldeb disgyblion ostwng yn is na .....%.

Mae'n ddrwg gen i eich hysbysu fod gwiriad o'r cofnodion presenoldeb yn datgelu fod presenoldeb «enw cyntaf» ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ysgol hon yn ddim ond «canran presenoldeb»%.

Rwy'n amgáu copi o dystysgrif presenoldeb «enw cyntaf» er gwybodaeth.

Byddwn yn gwerthfawrogi os gallech weithio gyda staff yr ysgol i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, os oes yna unrhyw anawsterau penodol pam nad yw «enw cyntaf» yn gallu mynychu'r ysgol, yna gallwch gysylltu â mi.

Yn gywir

**Pennaeth/Headteacher**

## Llythyr 2 – Tystiolaeth Feddygol

«dyddiad argraffu»

«cyfarchiad»

«bloc cyfeiriad»



Annwyl «cyfarchiad»

**Ynglŷn â: «enw llawn» - «blwyddyn gofrestru»**

Ysgrifennais atoch yn ddiweddar yn mynegi fy mhryderon ynglŷn â phresenoldeb «enw cyntaf» yn yr ysgol a'ch hysbysu o ddisgwyliadau Ysgolion, Awdurdodau Lleol, Arolygwyr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n ddrwg gen i eich hysbysu bod gwiriad o gofnodion presenoldeb yn dangos fod presenoldeb «enw cyntaf» yn «canran y presenoldeb»% a heb wella.

Rwy'n amgáu copi o dystysgrif presenoldeb «enw cyntaf» er gwybodaeth.

Bydd unrhyw absenoldebau pellach yn cael eu cofnodi fel anawdurdodedig oni bai fod tystiolaeth feddygol/ysgrifenedig arall wedi'i darparu.

Byddwn yn gwerthfawrogi os gallech weithio gyda staff yr ysgol i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, os oes yna unrhyw anawsterau penodol pam nad yw «enw cyntaf» yn gallu mynychu'r ysgol, yna gallwch gysylltu â mi.

Yn gywir

**Pennaeth/Headteacher**

### Llythyr 3 – Gwahoddiad i Gyfarfod

«dyddiad argraffu»

«cyfarchiad»

«bloc cyfeiriad»

Annwyl «cyfarchiad»

**Ynglŷn â: «enw llawn» - «blwyddyn gofrestru»**

Rwy'n bryderus o nodi fod «yr enw cyntaf a ddewisir» wedi bod yn absennol o'r ysgol eto. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi mae presenoldeb «yr enw cyntaf a ddewisir» yn destun pryder difrifol ac mae pob diwrnod mae disgyblion yn absennol o'r ysgol yn cael effaith niweidiol ar eu dysg a'u cyflawniad.

Mae presenoldeb «yr enw cyntaf a ddewisir» yn fater difrifol a disgwyliad Ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol, Arolygwyr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yw na ddylai presenoldeb «yr enw cyntaf a ddewisir» ostwng yn is na 95% yn ystod unrhyw ran o'r flwyddyn academaidd. Nid oes gan yr ysgol unrhyw ddewis ond i fynd ar ôl unrhyw absenoldeb a rhoi gwybod i'r Awdurdod Addysg Lleol am unrhyw ddisgyblion lle mae eu presenoldeb o dan 90%. Dim ond «canran presenoldeb»% yw presenoldeb «yr enw cyntaf a ddewisir» ar hyn o bryd.

Rwy'n amgáu copi o'u tystysgrif presenoldeb er gwybodaeth. Nodwch fod rhai o'r absenoldebau hyn heb eu hawdurdodi a heb eglurhad ac fe fyddem yn gwerthfawrogi pe byddech yn dod i gyfarfod yn yr ysgol gyda mi ar **DYDDIAD** am **AMSER** i drafod presenoldeb gwael parhaus «yr enw cyntaf a ddewisir» a gobeithio rhoi strategaethau mewn grym i'w cynorthwyo i wella eu presenoldeb.

Hefyd fe hoffwn roi gwybod i chi yn unol â pholisi presenoldeb yr ysgol fe fyddaf yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Addysg Lleol drwy'r Swyddog Lles Addysg am absenoldeb parhaus «yr enw cyntaf a ddewisir» y flwyddyn academaidd hon.

Os hoffech drafod y mater hwn ymhellach mae croeso i chi gysylltu â mi yn yr ysgol ac rwy'n edrych ymlaen at eich cyfarfod. Os na allwch fynychu'r cyfarfod hwn cysylltwch â mi ar y cyfle cynharaf posibl os gwelwch yn dda i drefnu dyddiad neu amser arall gan ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cyfarfod.

Yn gywir

**Pennaeth/Headteacher**

## **Llythyr 4 – Cais am Rybudd Cosb Benodedig**

«dyddiad argraffu»

«cyfarchiad»

«bloc cyfeiriad»

Annwyl «cyfarchiad»

**Ynglŷn â: «enw llawn» - «blwyddyn gofrestru»**

**Presenoldeb: «canran presenoldeb»%**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y byddaf yn gwneud cais i'r Awdurdod Lleol i ofyn am Rybudd Cosb Benodedig o £60.

Mae staff yr ysgol wedi ysgrifennu atoch ac wedi trefnu cyfarfod i drafod y pryderon sy'n bodoli o ran yr absenoldeb anawdurdodedig sydd wedi ei gofnodi ar gofrestr presenoldeb ein hysgol. Hyd yma mae'r materion yn parhau heb eu datrys ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei derbyn i fy ngalluogi i awdurdodi'r absenoldebau.

Yn gywir

**Pennaeth/Headteacher**

Copi at: Y Swyddog Lles Addysg

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn prosesu eich data at ddibenion penodol asesu eich ymholiad yn unig. Gallai Cyngor Sir y Fflint rannu data disgyblion gydag awdurdodau lleol eraill, y GIG, yr Heddlu ac asiantaethau er mwyn cynnal gwiriadau cefndir. Gallai hyn olygu trosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd os ydych chi wedi byw mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw gwybodaeth am 10 mlynedd. Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan - <http://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>